# Pwyllgor ar yr Ymchwilid i'r achosion E.coli yng Nghymru

## Cofnodion (E.coli(2)-01-05)

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Llun 7 Tachwedd 2005

### Amser y cyfarfod: 2.30 pm tan 4:50 pm

### Lleoliad y cyfarfod: Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

| Aelodau'r Cynulliad | Etholaeth |
|---|---|
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Jonathan Morgan | Canol De Cymru |
| Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| Jenny Randerson | Canolbarth Caerdydd |
| Karen Sinclair | De Clwyd |

### Yn bresennol

| Enw | Yn cynrychioli (os yw'n berthnasol) |
|---|---|
| Jeff Godfrey | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| David Seal | Prif Weithredwr Dros Dro, Canolfan Iechyd Cymru |
| Dr Carl Clowes | Aelod Bwrdd, Canolfan Iechyd Cymru |

| | |
|---|---|
| Joy Whinney | Cyfarwyddwr Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru |
| Julie Barratt | Cyfarwyddwr Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd Cymru, |

## Gwasanaeth y Pwyllgorau yn bresennol

| Enw | Tetil swydd |
|---|---|
| Jane Westlake | Clerc y Pwyllgor |
| Vaughan Watkin | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| Peter Jones | Cwnsler i Wasanaeth Seneddol y Cynulliad |

## Eitem 1: Enwebu aelod o'r pwyllgor i gadeirio'r cyfarfod

1.1 Gofynnodd y Clerc am enwebiadau ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor. Cynigiodd Val Lloyd Jocelyn Davies a chan na chafwyd unrhyw enwebiad arall, etholwyd Jocelyn Davies a chymerodd y gadair.

## Eitem 2: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a datgan buddiannau

2.1 Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau.

2.2 Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant.

2.3 Byddai cofnod gair-am-air yn cael ei gynhyrchu a'i roi ar y wefan.

## Eitem 3: Papur gan yr Ysgrifennydd Parhaol

### Papur: E.coli (2) 01-05 (p1)

3.1 Gofynnodd y Cadeirydd i Jeff Godfrey, Cyfarwyddwr y Gwasnaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, gyflwyno'r papur.

3.2 Dywedodd Jeff Godfrey fod yr Ysgrifennydd Parhaol wedi gofyn iddo ymddiheuro ar ei ran gan fod yn rhaid iddo fod yn bresennol mewn cyfarfod Cabinet.

3. 3 Cyflwynodd Jeff Godfrey ei bapur gyda chryn fanylder ac atebodd gwestiynau'r Aelodau.

3.4 Dywedodd y Cadeirydd fod y Llywydd wedi ysgrifennu at yr Arglwydd Ganghellor yn gofyn

i'r canllawiau drafft gael eu cyhoeddi cyn gynted ag y bo modd.

Camau i'w cymryd

Jeff Godfrey i baratoi papur arall ar gyfer Pwyllgor ar y rheolau a'r amslenni y byddai angen i Gadeirydd yr Ymchwiliad eu hystyried.

## Eitemau 4 a 5: Cylch Gorchwyl yr ymchwiliad ac atebion i'r ymgynghoriad ysgrifenedig ar y cylch gorchwyl

### Papur: E.Coli (2) 01-05 (p2)

### Papur: E.Coli (2) 01-05 (p2a)

### Papur: E.Coli (2) 01-05 (p3)

4.1 Croesawodd y Cadeirydd Dr David Seal a Dr Carl Clowes, Canolfan Iechyd Cymru, Julie Barratt, Cyfarwyddwr Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd a Joy Winney, Cyfarwyddwr Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru i'r cyfarfod gan ofyn iddynt awgrymu Cylch Gorchwyl posibl ar gyfer yr Ymchwiliad. Ystyriodd y Pwyllgor hefyd y cylch gorchwyl a awgrymwyd yn ysgrifenedig gan Wasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru a Grwp Cymorth E.coli y DU (Cymorth Syndrom Hemolytig).

4.2. Mae copi o'r argymhelliad a gyflwynwyd gan Ganolfan Iechyd Cymru ynghlwm.

## Eitem 6: Cadeirydd yr Ymchwiliad

### Papur: E.coli (2) 01-05 (p4)

5.1 Penderfynodd y Pwyllgor eithrio'r cyhoedd o weddill y cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 8.24(ii) tra oedd yn trafod materion yn ymwneud â phenodi Cadeirydd yr Ymchwiliad.